# ARGYFWNG COSTAU BYW YN WRECSAM



Ymgynghoriad wedi'i lunio gan Senedd yr Ifanc, gyda 908 o bobl ifanc o bob cwr o Wrecsam yn ei gwblhau.



## DIFFINIAD

Mae'r term 'Argyfwng Costau Byw' yn cyfeirio at adeg pan fo cost eitemau hanfodol pob dydd yn codi'n llawer cyflymach nag incwm cyfartalog yr aelwyd.

## PAM?

Pleidlais Senedd yr Ifanc 2023: dewisodd pobl ifanc y Costau Byw fel y mater pwysicaf yn Wrecsam.

Nod yr ymgynghoriad oedd darganfod beth sy'n poeni pobl ifanc am yr Argyfwng Costau Byw, eu hymwybyddiaeth o gymorth ac unrhyw feysydd y gellid eu gwella.



## AMDANAF I

Roedd yr ymatebwyr yn bennaf rhwng 11 a 16 oed, mewn addysg ac yn byw gyda'u teuluoedd.

## CYMORTH CYFFREDINOL

- Dim ond 33% o'r ymatebwyr a ddywedodd y bydden nhw'n gwybod ble i chwilio am gymorth gyda Chostau Byw.
- Y ffynhonnell gymorth fwyaf cyffredin oedd y teulu a ffrindiau (66% o'r ymatebwyr).



## CYMORTH YN YR YSGOL

Dywedodd 76.3% nad oedd eu hysgol wedi cynnig cymorth trwy'r Argyfwng Costau Byw

Roedd y cymorth roedd yr ysgol yn ei gynnig yn cynnwys cymorth gyda chostau gwisg ysgol, a phrydau Ysgol a byrbrydau am ddim.

Y cais mwyaf cyffredin am gymorth mewn ysgolion oedd am brydau ysgol am ddim i bawb.


## CYMORTH DYMUNOL

Dywedodd 110 o ymatebwyr yr hoffen nhw weld gwell cymorth gyda chostau bwyd fel banciau bwyd a bwyd am ddim/rhatach.

Soniodd 83 o ymatebwyr am wella cymorth tai yn Wrecsam megis tai fforddiadwy a chymorth i bobl ddigartref

## COSTAU YSGOL

- Roedd ymatebwyr yn nodi'n gyffredin bod cost prydau ysgol, gweithgareddau a theithiau'n effeithio arnyn nhw'n andwyol.
- Dewisodd 18% o bobl ifanc sydd â hawl i brydau ysgol am ddim beidio â'u hawlio.
- Roedd 71% o'r sylwadau am brydau ysgol am
- ddim yn gadarnhaol.




01978 298374
youngvoices@wrexham.gov.uk
seneddyrifanc.cymru
Senedd yr Ifanc Wrecsam
seneddyrifanc.cy
https://linktr.ee/seneddyrifanc

## ARFERION SIOPA

Dywedodd pobl ifanc fod hyn yn effeithio ar y ffordd maen nhw'n siopa, yn bennaf o ran y swm maen nhw'n ei wario ar anrhegion, y gallu i brynu eitemau brand, ble maen nhw'n siopa am fwyd, y gallu i brynu bwyd ffres a ble maen nhw'n siopa am ddillad.




## TEIMLADAU

Dywedodd ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ansicr, yn iawn, dan straen, yn bryderus, yn ofidus.




Dywedodd **55%** o'r ymatebwyr eu bod wedi sylwi bod eu rhieni'n poeni am yr Argyfwng Costau Byw




Dywedodd **72%** o'r ymatebwyr fod biliau eu haelwydydd wedi cynyddu

Dywedodd **44%** eu bod yn mynd ar lai o wyliau a diwrnodau allan i'r teulu





Dywedodd **40%** nad ydyn nhw'n gallu troi'r gwres ymlaen cymaint ag o'r blaen



## ROEDD YMATEBWYR WEDI SYLWI...


1. Prisiau'n Codi a Chwyddiant
2. Llai o Wariant a Newidiadau Ffordd o Fyw
3. Effaith ar Les a Straen
4. Digartrefedd a'r Angen am Dai
5. Effeithiau Cymdeithasol, Ysgol a Llywodraeth




## LLES AC IECHYD MEDDWL

Dywedodd 202 o ymatebwyr fod hyn wedi effeithio'n andwyol ar eu lles a'u hiechyd meddwl.

Dywedodd 507 o ymatebwyr eu bod o leiaf 'ychydig yn bryderus'.





## ARGYMHELLION A GOBLYGIADAU

1. Mwy o ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael
2. Gwell Cymorth i Ysgolion
3. Ymgysylltu â'r Gymuned

## CAMAU NESAF



1. Canfyddiadau Presennol
2. Dosbarthu'r Canfyddiadau
3. Creu Taflen

## CYSYLLTU Â NI

SCAN ME!

I gael gwybod mwy, sganiwch y cod QR neu cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod

01978 298374 youngvoices@wrexham.gov.uk seneddyrifanc.cymru
Senedd yr Ifanc Wrecsam seneddyrifanc.cy https://linktr.ee/seneddyrifanc